# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mehefin 30ain 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Bro Derfel.

Presennol: Gwenda Evans, (cadeiryddes), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Dewi Pritchard, Gwenda Morris, Gary Thomas, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Iolo Evans, Rita Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mehefin 2il 2026) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026 - **adroddodd y clerc fod y Cyngor wedi bod yn llwyddianus gyda'i cais a cytunwyd y gallai Oswyn Roberts gychwyn ar y gwaith o darmacio ffordd y fynwent yn Llandderfel cyn gynted a phosib. Awdurdodwyd y clerc i dalu ei anfoneb pan fydd y gwaith wedi cael ei gwbwlhau ac hawlio'r arian yn nol o'r gronfa.**
c) Lloches bws newydd i Lanfor.
ch) Problemau parcio pentref Llandderfel – **roedd Adran Traffig Cyngor Gwynedd wedi anfon cynlluniau drafft ar gyfer gosod llinellau melyn ar ran o Stryd yr Eglwys yn Llandderfel. Bydd y cynlluniau yma wedyn yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a bydd cyfle i'r trigolion lleol gyflwyno unrhyw sylwadau.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Arolwg o Drefniadau Etholiadol Cymunedol.

b) Un Llais Cymru.
i) Nodyn Datblygu Ymarfer 28: Archwiliad Mewnol
ii) Modiwlau hyfforddi digidol newydd. **Cytunodd y clerc i fynychu un o'r sesiynnau hyfforddi.**

c) Amrywiol.
i) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - archwilio agweddau a chanfyddiadau Cynghorwyr Tref a Chymuned gan ystyried yn benodol eu barn ar faint a strwythur cynghorau o'r fath a sut maent yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol. **Gofynnwyd i'r clerc gwbwlhau'r holiadur.**
ii) Parc Cenedlaethol Eryri - Cais am Adborth: Proffiliau Aneddiadau Drafft. **Trafodwyd ei gynnwys a awgrymwyd fan newidiadau.**

v) Ceisiadau Cynllunio
C25/0273/04/LL - Codi 8 o gytiau bugail, gosod cynhwysydd dŵr budr a suddfan dŵr a seilwaith i wasanaethu'r cytiau bugail. Pale Hall Hotel, Llandderfel.

**Fel gyda'r cais blaenorol, cytunwyd i'w wrthwynebu gan y byddai'r cynllun yn or-ddatblygiad o'r safle yn enwedig gan ei fod gerllaw i adeilad rhestredig unigryw.**

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
**Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Fehefin a chafwyd yn gywir.**

b) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.
**Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.**

<u>b) Taliadau.</u>
**Cytunwyd i dalu –**
i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh)
ii) TWE
iii) Sion Jones (gwaith y mynwentydd)

<u>vii) Materion lleol.</u>
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 1af am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.**